**CRWNER E.M, CEREDIGION**

**Sir**

**CEREDIGION**

**Siarter Gwasanaeth Crwneriaid**

CYFFREDINOL

**Cymhwyso**

**1.** Gwneir y Siarter hon rhwng Crwner E.M. Mr Peter Brunton, Heddlu Dyfed-Powys a Chyngor Sir Ceredigion. Mae'n ymwneud â'r Gwasanaeth Crwner yng Ngheredigion.

Mae'r Siarter yn dweud wrthych ba safonau perfformiad sydd i'w disgwyl yn y Gwasanaeth Crwner a beth i'w wneud os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

**Sefyllfa Gyfreithiol**

**2.** Mae Gwasanaeth Crwner Ceredigion yn gweithredu o fewn fframwaith cyfreithiol. Mae'n ddyletswydd ar y Crwner i ymchwilio i farwolaethau a adroddir wrtho ac sy'n ymddangos i fod o ganlyniad i drais, neu'n anarferol, neu'n sydyn ac o achos anhysbys, neu sy'n digwydd yn y ddalfa gyfreithiol ac i gyflawni rhai cyfrifoldebau cysylltiedig. Nod y Gwasanaeth Crwner yw sicrhau bod swyddogaethau Cyfreithiol y Crwner yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

**Ymddygiad**

**3.** Bydd Crwner Ceredigion a Swyddog y Crwner (a gyflogir gan Heddlu Dyfed-Powys) yn trin y galarwyr ac aelodau eraill y cyhoedd yn gwrtais ac â chydymdeimlad bob amser a byddant yn ystyried, o fewn cyfyngiadau'r dyletswyddau statudol, ffydd grefyddol yr ymadawedig.

**4.** Bydd dyletswyddau'n cael eu cyflawni'n ddiduedd, gyda'r bwriad o ganfod y ffeithiau sy'n ymwneud â marwolaeth at ddibenion cyfrifoldebau statudol y Crwner.

**5.** Bydd cyfrinachedd yn cael ei gadw cyn belled ag y bo modd o fewn system yn seiliedig ar wrandawiadau llys cyhoeddus. Rhoddir esboniad o'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd mewn achosion penodol, os gofynnir amdanynt, pan fo'r Crwner yn fodlon bod gan y person fuddiant priodol.

**Gohebiaeth**

**6.** Fel arfer bydd ymholiadau ysgrifenedig i'r Crwner yn cael ateb o fewn 14 diwrnod gwaith ar ôl derbyn. Os na ellir datrys y mater o fewn yr amser hwnnw, rhoddir cydnabyddiaeth o fewn 14 diwrnod gwaith gydag amcangyfrif o bryd y bydd ateb manylach yn cael ei anfon.

PWYNTIAU CYSWLLT AC YMHOLI

**7.** Mae Swyddfa Crwner Ceredigion wedi'i lleoli yn 6 Pen Uchaf Stryd Portland, Aberystwyth. Mae'r Swyddfa ar agor o 9.00 a.m. – 50.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener. Manylion cyswllt pellach isod.

**8.** Cynhelir gwrandawiadau cwest fel arfer yng Nghanolfan Cyfiawnder Aberystwyth.

- Mae gan y Llysoedd doiledau ac ystafelloedd aros ar wahân. Gofynnir i'r rhai sy'n dymuno mynychu'r Llys sydd ag unrhyw ofynion arbennig (gan gynnwys, er enghraifft, wasanaethau cyfieithu neu ddehongli) gysylltu â Swyddfa'r Crwner ymlaen llaw, gan roi rhybudd o 14 diwrnod yn ysgrifenedig. Yn achlysurol, gellir cynnal Cwestau mewn lleoliadau eraill o fewn ardal Ceredigion.

- Mae manylion pryd a lle y cynhelir Cwestau ar gael gan y Crwner, Heddlu Dyfed-Powys a/neu Gyngor Sir Ceredigion (manylion cyswllt isod).

CYN Y CWEST

**Cyfweliadau**

**9.** Os bydd angen i'r Crwner neu Swyddog y Crwner gyfweld rhywun am farwolaeth, bydd ar amser a lle yn gyfleus i'r person dan sylw. Os yw'r person yn dymuno, gall perthynas, ffrind neu berson arall fynd gyda nhw yn ystod y cyfweliad. Gwneir pob ymdrech i osgoi achosi unrhyw ofid ychwanegol i ffrindiau agos neu berthnasau'r ymadawedig.

**Post-mortemau**

**10.** Pan fydd y Crwner yn penderfynu bod angen post-mortem, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, rhoddir gwybod i'r perthynas agosaf y mae eu manylion yn hysbys:

- Eglurhad pam fod angen post mortem, os gofynnir amdano;

- Copi o'r adroddiad post mortem, os oes angen ac ar ôl talu'r ffi benodedig.

**Trefniadau Gweinyddol**

**11.** Bydd y Crwner yn rhoi gwybod i'r rhai a ofynnir iddynt fynychu Cwest o'r canlynol:

- Dyddiad ac amser pob gwrandawiad (os oes mwy nag un) o leiaf 10 diwrnod gwaith (ond noder y bydd agoriad ffurfiol y Cwest – ar gyfer cymryd tystiolaeth o hunaniaeth – yn digwydd yn gyffredinol o fewn 5 diwrnod gwaith i ddyddiad y farwolaeth, pryd y bydd y corff fel rheol yn cael ei ryddhau);

- Manylion lleoliad y Llys lle cynhelir y Cwest ac o'r cyfleusterau a fydd ar gael yno

- Manylion y ffôn ar gyfer ymholiadau;

a bydd yn;

- Cynghori ar argaeledd taflen sy'n egluro pwrpas a gweithdrefnau Cwestau;

- Egluro i'r rhai a elwir fel tyst neu reithiwr sut i hawlio am gostau teithio a chynhaliaeth ac am lwfansau colled ariannol;

- Canfod unrhyw ffafriaeth ar gyfer tyngu tystiolaeth (e.e. yn unol â chredoau crefyddol penodedig neu ar gadarnhad).

**Amseru**

**12.** Bydd y Crwner yn ymdrechu i gynnal Cwest angenrheidiol cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Cynhelir y mwyafrif o Gwestau yng Ngheredigion o fewn 6 mis i'r farwolaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd ffactorau y tu allan i reolaeth y Crwner sy'n gallu achosi oedi. Pan fo'r Cwest yn debygol o gael ei ohirio, bydd y Crwner yn hysbysu personau â diddordeb o'r sefyllfa, oni bai bod y cwest wedi'i ohirio'n ffurfiol i ddyddiad penodol.

**Rhyddhau'r Corff**

**13.** Bydd y Crwner yn rhyddhau corff yr ymadawedig ar gyfer yr angladd cyn gynted â phosibl, fel arfer o fewn 5 diwrnod. Os oes ansicrwydd ynghylch yr achos marwolaeth, neu os yw'r farwolaeth yn amheus, efallai y bydd angen cadw'r corff yn hirach ar gyfer ymchwiliadau pellach. Bydd y Crwner yn sicrhau bod

perthnasau, ar ôl ymholiad, yn cael eu hysbysu am yr oedi posibl a'r rhesymau drostyn nhw.

**Datgelu Gwybodaeth**

**14.** Bydd y Crwner, ar gais ac yn ôl ei ddisgresiwn, yn darparu i bobl â diddordeb heb fod yn llai na 10 diwrnod gwaith cyn y Cwest gopïau o'r adroddiad post mortem, y mae'n bosibl y bydd angen talu amdano.

**Rheithwyr**

**15.** Ar gyfer Rheithwyr, bydd Swyddfa'r Crwner yn:

- Anfon taflen yn egluro dyletswyddau rheithiwr mewn Cwest a darparu gwybodaeth berthnasol arall, 10 diwrnod ymlaen llaw.
- Rhoi arwydd ymlaen llaw o ba mor hir y bydd y Gwasanaeth Rheithgor yn para.

AR ÔL Y CWEST

**16.** Ar ddiwedd y Cwest, rhoddir eglurhad i'r perthynas agosaf ynghylch sut, ble a phryd y gellir cael copi o'r Dystysgrif Marwolaeth.

**17.** Os bydd y Crwner yn penderfynu adrodd y mater wrth berson neu awdurdod perthnasol er mwyn atal mwy o farwolaethau; bydd yn gwneud hynny o fewn 14 diwrnod gwaith o ganlyniad y Cwest. Bydd hefyd yn anfon copïau o'i lythyr at yr holl bobl â diddordeb os gofynnir iddo wneud hynny. Anfonir copi o unrhyw ateb dilynol o fewn 14 diwrnod gwaith o'i dderbyn.

**18.** Bydd y Crwner yn darparu i berson â diddordeb ar gais, gopi o Ddyfarniad y Cwest (er bod hyn yn cael ei atgynhyrchu ar y Dystysgrif Marwolaeth), neu unrhyw un o'r dogfennau a gynhyrchwyd yn y dystiolaeth, o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y ffi benodedig (a fydd yn amrywio yn ôl nifer a maint y dogfennau i'w copïo). Rhoddir amcangyfrif o'r ffi ymlaen llaw os gofynnir amdano.

**19.** Bydd y crwner hefyd yn darparu, am y ffi benodedig, gopi o'r trawsgrifiad o dystiolaeth, ond gall hyn gymryd hyd at 12 wythnos i'w ddarparu. Ym mhob achos, rhoddir amcangyfrif o'r ffi ar gais.

**20.** Bydd yr Awdurdod Lleol yn talu hawliadau treuliau tystion a rheithwyr heb oedi ac o fewn 21 diwrnod gwaith o gael gan y Crwner geisiadau a gwblhawyd yn gywir.

**Ceisiadau am Ganiatâd i Symud Corff Dramor**

**21.** Bydd y Crwner yn gwneud pob ymdrech i gwblhau ei ymholiadau a phenderfynu ar geisiadau o'r fath o fewn 5 diwrnod i dderbyn hysbysiad (gan gynnwys penwythnosau a Gwyliau Banc).

## CWESTAU TRYSOR

**22.** Mae crwneriaid yn gyfrifol am ymholiadau i gronfeydd trysor. Mae taflenni gwybodaeth am drysor ar gael o swyddfa'r Crwner.

## ADBORTH A CHWYNION

**23.** Fel arfer ni fydd crwneriaid yn gohebu â rhywun am yr achosion y maent wedi'u casglu.

Dim ond trwy'r Uchel Lys y gellir ymdrin â chwynion am **benderfyniad** Crwner neu **ganlyniad Cwest**. Bydd Swyddfa'r Crwner yn gallu egluro'r weithdrefn ar gais, ond ni all roi cyngor cyfreithiol.

Dylid codi'r holl gwynion am **weinyddu** Gwasanaeth Crwner Ceredigion, neu **ymddygiad** Crwneriaid unigol neu eu Swyddogion yn y lle cyntaf gyda'r Crwner.

- Os bydd y Crwner yn methu â delio â'r gwyn yn foddhaol, gall yr achwynydd gyfeirio at Swyddfa'r Prif Grwner, Darperir manylion cyswllt isod.

Nid oes gan Swyddfa'r Prif Grwner unrhyw bwerau disgyblu neu bwerau i ddyfarnu iawndal ond gall, mewn achosion priodol, gyfeirio'r gŵyn at yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am ddisgyblaeth Crwneriaid.

Mae croeso bob amser i sylwadau ac awgrymiadau ar wella Gwasanaeth y Crwneriaid. Gellir cyfeirio'r rhain at Swyddog y Crwner neu at Wasanaeth Crwneriaid Cyngor Sir Ceredigion.

## RHAGOR O WYBODAETH

**24.** Gellir cael copïau pellach o'r Siarter gan Swyddfa'r Crwner, Swyddog y Crwner, o Wasanaeth Crwneriaid Cyngor Sir Ceredigion, ac o Orsafoedd Heddlu yn Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan a Llyfrgelloedd Ceredigion.

Ceir gwybodaeth gyffredinol yn:

- Canllaw’r Weinyddiaeth Gyfiawnder i Wasanaethau’r Crwner.
- Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009

- Canllaw'r Prif Grwner i Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009

## 25. Manylion Cyswllt

- **Swyddfa Crwner E.M Ceredigion**

6 Pen Uchaf Stryd Portland, Aberystwyth.
Ffôn: 01970 612567/617913
Ffacs: 01970 615572
Oriau Agor: 9.00a.m. – 5.00p.m. Dydd Llun – Dydd Gwener
E-bost: peter.brunton@bruntonandco.co.uk

- **Swyddog Crwner Ceredigion**

Heddlu Dyfed-Powys
Gorsaf Heddlu Aberystwyth
Boulevard St. Brieuc
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1PH.

Oriau swyddfa: Dydd Llun-Dydd Iau 07.00-14.30pm.
Di-frys: 07966 64 8812
Di-frys: 101
Ffacs: 01970 630605
E-bost: eric.james@Dyfed-Powys.pnn.police.uk

- **Gwasanaeth Crwneriaid Cyngor Sir Ceredigion**

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron.
Ffôn: 01545 570881
E-bost: coronerservice@ceredigion.gov.uk
peter.brunton@ceredigion.gov.uk
Gwefan: www.ceredigion.gov.uk

- **Swyddfa'r Prif Grwner**

  11eg Llawr
  Llysoedd Barn Brenhinol
  Llundain
  WC2A 2LL
  Gwefan: www.judicary.co.uk
  E-bost: chiefcoronersoffice@judicary.gsi.gov.uk

**Cyhoeddwyd:** Cyngor Sir Ceredigion

2018